

PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

(Cyfarfod Aml-leoliad Siambr y Cyngor, Timau Port Talbot a
Microsoft)

Aelodau sy'n Bresennol:

Dydd Mercher, 19 Hydref 2022

Is-gadeirydd:

Cynghorydd C.James

Cynghorwyr:

T.Bowen, C.Clement-Williams, C.Galsworthy,
J.Henton, R.G.Jones, C.Lewis, S.Paddison,
C.Phillips, S.Pursey a/ac A.J.Richards

**Swyddogion sy'n
Bresennol:**

K.Jones, A.Jarrett, A.Thomas, N.Pearce,
H.Jones, S.Rees, M.Shaw, R.Headon,
Ms.L.Willis, J.Woodman-Ralph a/ac C.John

**Gwahoddedigion y
Cabinet:**

Cynghorwyr W.F.Griffiths, S.Harris, S.K.Hunt,
J.Hurley, N.Jenkins, S.A.Knoyle, A.Llewelyn,
D.M.Peters a/ac J.Hale

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Ni chafwyd unrhyw gyhoeddiadau.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf
2022 fel cofnod cywir.

4. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf 2022/23 - yn ôl diwedd mis Medi
2022

Derbyniodd yr aelodau wybodaeth mewn perthynas â chyflawni Rhaglen Gyfalaf 2022/23.

Holodd yr aelodau ynghylch llinellau'r gyllideb yn atodiad 1 yr adroddiad a ddisbarthwyd sydd â gwariant o 0 ar hyn o bryd. Roedd aelodau am gael sicrwydd ynghylch gwariant yr arian hynny. Roedd gan yr aelodau ddiddordeb arbennig mewn cael rhagor o wybodaeth ynghylch y gyllideb mewn perthynas ag 'Adfywio: Tasglu'r Cymoedd'. Dywedodd swyddogion wrth yr aelodau y byddent yn casglu gwybodaeth y tu allan i'r cyfarfod ac yn siarad â'r swyddogion perthnasol er mwyn darparu ymateb i'r aelodau.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw 2022/2023 - yn ôl diwedd mis Medi 2022

Rhodddwyd gwybodaeth i'r aelodau mewn perthynas â sefyllfa'r gyllideb refeniw ragamcanol y cyngor.

Trafodwyd y dyfarniad cyflog ar gyfer 2022/23 a holodd yr aelodau ynghylch yr effaith y gallai'r dyfarniad cyflog ei chael ar ysgolion. Gofynnwyd a fyddai ysgolion yn gallu talu'r 1% oherwydd bod y dyfarniad cyflog a ragwelir yn 5% ac mae setliad llywodraeth Cymru yn caniatáu ar gyfer 4% yn unig. Eglurodd swyddogion y byddai'r Cyngor yn dyrannu 4% i'r dyfarniad cyflog gan mai dyma'r hyn a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith, oherwydd y dyfarniad cyflog a'r costau ychwanegol, efallai y bydd angen i ysgolion ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu gwarged o 2 filiwn. Nid oedd swyddogion yn ymwybodol o unrhyw ysgolion a all fod mewn ddiffyg oherwydd y dyfarniad cyflog hwn, ond cadarnhaodd swyddogion y byddent yn casglu dadansoddiad ac yn ei rannu gydag aelodau.

Rhannodd aelodau eu pryderon ynghylch y diffyg posib o 2 filiwn a'r defnydd o'u cronfeydd wrth gefn. Nodwyd y bydd y gost ychwanegol o 1% mewn perthynas â chyllideb rhai ysgolion yn sicr yn cael effaith andwyol ar y rheini sydd â chyllideb fwy o gymharu ag ysgolion llai. Gofynnwyd bod gwybodaeth yn cael ei darparu am yr effaith y bydd y gost ychwanegol o 1% mewn perthynas â'r dyfarniad cyflog yn ei chael ar ysgolion cynradd ac uwchradd sydd ar gynlluniau adfer sy'n seiliedig ar ddiffygion wrth symud ymlaen. Gofynnwyd hefyd i'r

wybodaeth hon gael ei dosbarthu i'r pwyllgor a'i throsglwyddo i'r Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Addysg, Sgiliau a Lles i'w hystyried.

Holodd yr aelodau ynghylch y costau ar gyfer cyflwyno Prydau Ysgol Am Ddim ar gyfer yr holl blant y derbyn mewn ysgolion cynradd. Nodwyd bod costau bwyd ac ynni wedi cynyddu a gofynnwyd a fyddai effaith ar y gyllideb, ynghyd â Llywodraeth Cymru'n adolygu'r gyfradd fesul pryd i sicrhau bod cyllid yn sylweddol. Cadarnhaodd swyddogion y bydden nhw'n casglu ffigurau a gwybodaeth bellach y tu allan i'r cyfarfod.

Yn dilyn Craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet

Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2022/23 i 2027/2028

Rhodddwyd y diweddaraf am y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2023/24 i 2027/28 i aelodau, yn seiliedig ar ragdybiaethau modelu cyfredol cyn llunio cynigion manwl strategaeth y gyllideb ar gyfer 2023/24 yn ystod yr hydref a'r gaeaf, fel y nodir o fewn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Hysbysodd y Prif Weithredwr yr aelodau am yr heriau sydd ar ddod a'r ansicrwydd ynghylch y setliad posib wrth bennu'r gyllideb.

Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch trawsnewid adeiladau ar gyfer ynni adnewyddadwy. Croesawodd yr aelodau'r ymagwedd hon o ganlyniad i'r amgylchiadau presennol ynghylch prisiau ynni. Amlygodd y Prif Weithredwr fod cyfeiriad clir o ran gwneud mesurau economaidd effeithlon fel diffodd goleuadau mewn ystafelloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio mewn adeiladau dinesig. Nodwyd hefyd fod trafodaethau'n cael eu cynnal ynghylch faint o adeiladau y byddai angen eu cadw yn y portffolio. Amlygwyd bod lefel y presenoldeb yn yr adeiladau'n tua 20% ar hyn o bryd ac roedd swyddogion yn ystyried opsiynau wrth ail-bwrpasu'r adeiladau i sicrhau bod arbedion priodol yn cael eu gwneud.

Yn dilyn craffu, cytunwyd i nodi'r adroddiad.

Adolygiad Strategaeth Hybu'r Gymraeg

Rhodddwyd gwybod i aelodau am y trefniadau arfaethedig i adolygu Strategaeth Hybu'r Gymraeg.

Tynnodd aelodau sylw at fanteision grŵp Tasg a Gorffen blaenorol y Strategaeth Hybu'r Gymraeg. Croesawodd yr aelodau'r ymagwedd at ailsefydlu'r Grŵp Tasg a Gorffen hwn er mwyn cefnogi Llywodraeth Cymru ymhellach wrth gyrraedd targedau i hybu'r Gymraeg a'r strategaeth.

Gofynnwyd sut y byddai'r grŵp yn cael ei greu. Nodwyd, pe bai'r Cabinet yn ystyried cymeradwyo'r argymhelliad, rhoddir awdurdod i Bennaeth y Gwasanaethau Democraataidd drefnu a hwyluso sefydlu'r grŵp Tasg a Gorffen.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet

5. **RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL 2022/23**

Nodi'r Flaenraglen Waith.

6. **EITEMAU BRYD**

Ni chafwyd unrhyw gyhoeddiadau.

CADEIRYDD